

RHESTR WIRIO CAMAU I GOFRESTRU	GWYBODAETH ATEGOL	WEDI'I GWBLHAU
<p>Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Lleol a gofynnwch am gofrestru fel gwarchodwr plant.</p>	<p>Cofrestru fel gwarchodwr plant yng Nghymru</p>	
<p>Cadwch le ar y Sesiwn Briffio nesaf i Warchodwyr Plant a gynhelir gan eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae PACEY Cymru hefyd yn cyflwyno sesiynnau briffio drwy weminar rhyngweithiol.</p>	<p>Sesiynau briffio PACEY Cymru</p>	
<p>Mynychwch Sesiwn Briffio i Warchodwyr Plant.</p>		
<p>Gwiriwch â'ch awdurdod lleol a oes cyllid ar gyfer hyfforddiant ar gael</p>		
<p>Cysylltwch â PACEY i gofrestru ar hyfforddiant gwarchod plant yn y cartref yng Nghymru.</p>	<p>Hyfforddiant cyn-gofrestru ar gyfer gwarchodwyr plant ar gyfer gofal plant yn y cartref yng Nghymru</p>	
<p>Ysgrifennwch y polisiau a'r gweithdrefnau gofynnol. Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth cyn-gofrestru, neu fe allech chi gofrestru ar weminar cyn-gofrestru a ddarperir gan PACEY Cymru.</p>	<p>Canllawiau Polisi Cymru Gweminarau ar gyfer Cymru</p>	
<p>Edrychwch ar ganllawiau cofrestru AGC a gwybodaeth i ymgeiswyr.</p> <p>Creu cyfrif gan ddefnyddio AGC ar-lein.</p>	<p>Cofrestru gwasanaeth gofal plant a chwarae AGC</p> <p>AGC ar-lein</p>	
<p>Dadlwythwch gopiâu o: Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi i Reoleiddio i Blant hyd at 12 oed, Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010, (wedi'i diweddarau 2016) a'r Fframwaith Arolygu a'r Canllaw Arolygu (Atodiad A) ar gyfer gofal plant.</p>	<p>Rheoliadau ac Safonau Gofynnol Cenedlaethol: Gofalwyr plant</p> <p>Fframwaith Arolygu a'r Canllaw Arolygu (Atodiad A) ar gyfer gofal plant</p>	
<p>Cwblhewch Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Peditrig a Hyfforddiant Diogelwch Bwyd Lefel 2. Yn aml mae'r cyrsiau hyn yn cael eu darparu gan eich tîm Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn lleol. Mae hyfforddiant ar gael hefyd trwy PACEY.</p>	<p>Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Paediatreg Diogelwch a hylendid bwyd ar gyfer lleoliadau blynyddoedd cynnar</p>	

<p>Bydd angen i chi, ac unrhyw un dros 16 oed sy'n byw yn yr eiddo domestig cwblhau Datgeliad uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cysylltwch ag AGC i drefnu hyn. Unwaith y bydd y gwiriad (GDG) wedi'i gwblhau, argymhellwn eich bod yn cofrestru gyda'r Gwasanaeth Diweddarau (GDG) o fewn 30 diwrnod.</p>	<p>Gwiriadau GDG yng Nghymru</p> <p>Archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd AGC</p>	
<p>Trefnwch gyda'r Meddyg Teulu iddynt llenwi'ch ffurflen datganiad meddygol. Rhaid i'r ffurflen hon gael ei llenwi yn agos at y dyddiad cyflwyno i sicrhau nad yw wedi dyddio.</p>	<p>Geirda meddygol - Gwasanaeth gofal plant a chwarae</p>	
<p>Rhaid trefnu gwasanaeth llawn a thystysgrif ar gyfer eich boeler/teclynnau gwresogi a'u cyflwyno gyda'ch ffurflenni cofrestru.</p>		
<p>Llenwch eich ffurflen gofrestru Gwarchodwr Plant AGC ar-lein.</p>		
<p>Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, bydd AGC yn gofyn am bob geirda. Rhowch wybod i'ch canolwyr y bydd rhywun yn cysylltu â hwy, a gofynnwch iddynt gadarnhau wrthych chi pan fyddant wedi ymateb.</p>		
<p>Bydd AGC yn cysylltu â chi i drefnu arolygydd i ymweld â'ch cartref er mwyn cwblhau 'asesiad o'r safle'. Byddwch yn cael 'Cyfweliad Addasrwydd' i sicrhau eich bod yn addas i ofalu am blant, a bod eich cartref yn ddiogel ac yn gyfeillgar i blant.</p>	<p>Arweiniad AGC i ymgeiswyr</p>	
<p>Ymgeisiwch am grant sefydlu gwarchodwr plant a Phecyn Cychwynnol Ansawdd PACEY (gan gynnwys Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus Busnes). Cysylltwch â'ch Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd am ragor o wybodaeth.</p>		
<p>Dywedwch wrth y cwmni sy'n yswirio'ch cartref eich bod yn cynnal busnes gwarchod plant o'ch cartref. Cysylltwch â'ch yswiriant cerbydau i gynnwys defnydd busnes.</p>		
<p>Pan fydd yr arolygydd yn hapus fod popeth yn gyflawn ac eich bod wedi cadarnhau bod gennych yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, bydd eich cais yn cael ei brosesu a byddwch chi'n derbyn eich tystysgrif cofrestru gan AGC.</p>		
<p>Llongyfarchiadau ar gofrestru!</p> <p>Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i'w hysbysu eich bod yn barod i ddechrau gwarchod plant.</p>	<p>Taflen Ffeithiau i Warchodwyr Plant sydd newydd Gofrestru</p>	